**WHC (2015) 013**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 9 Ebrill 2015

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

**Teitl:** Seithfed Egwyddor Caldicott : "Y Ddyletswydd i Rannu" a mynediad pobl i'w cofnodion gofal electronig eu hunain

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan :**
Gwarcheidwaid Caldicott

**Angen gweithredu erbyn:**
7 Mai 2015

**Anfonir gan:** Andrew Goodall

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Sally Greenway, y Tîm Iechyd a Gofal Digidol, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithiwr,

**Seithfed egwyddor Caldicott: "Y Ddyletswydd i Rannu" a mynediad pobl i'w cofnodion gofal electronig**

Fel y gwyddoch, bu'r Fonesig Fiona Caldicott yn cadeirio adolygiad yn 1996 - 97 o'r defnydd o ddata adnabyddadwy cleifion. Argymhellodd ei phwyllgor chwe egwyddor ar gyfer diogelu cyfrinachedd pobl. Mae'r egwyddorion hyn bellach yn cael eu hadnabod fel egwyddorion Caldicott.

Yn 2012, aeth y Fonesig Fiona ati i sefydlu panel bach o aelodau arbenigol i gynnal adolygiad o lywodraethu gwybodaeth er mwyn at sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng diogelu gwybodaeth y claf neu'r defnyddiwr a defnyddio a rhannu'r wybodaeth honno i wella gofal.

Cydnabu'r adolygiad ei bod yn hanfodol rhannu data er diogelwch y claf, ansawdd a gofal integredig. Yn adroddiad y panel arbenigol ym Mawrth 2013 casglwyd bod angen ail-gydbwyso rhannu a diogelu gwybodaeth a hynny ar frys er lles cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. O ganlyniad i hyn ychwanegwyd seithfed egwyddor, sef:

"The duty to share information can be as important as the duty to protect patient confidentiality:
Health and social care professionals should have the confidence to share information in the best interests of their patients within the framework set out by these principles. They should be supported by the policies of their employers, regulators and professional bodies."

Fel gwarcheidwaid Caldicott rwyf yn siŵr y byddwch wedi cymryd camau i gyflwyno'r egwyddor hon yn eich sefydliad chi. Rwyf yn ysgrifennu heddiw, felly, i ofyn am adroddiad byr oddi wrthych ar ba gamau yr ydych wedi'u cymryd a pha ganlyniadau a gafwyd wrth drosi'r egwyddor hon yn gamau gweithredu.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech gynnwys adrannau yn yr adroddiad am yr isod:

- y camau sy'n cael eu cymryd i gyfleu'r egwyddor newydd i holl staff y sefydliad
- newidiadau penodol mewn ymarfer o ganlyniad i fentrau sy'n cael eu cyflwyno
- sylwadau cyffredinol sy'n berthnasol i'r egwyddor newydd

Mae'r ddeddfwriaeth sydd ar gof a chadw a'r canllawiau ar fynediad cleifion i gofnodion am eu gofal hefyd yn berthnasol i rannu gwybodaeth er lles gorau cleifion. Mae'n bwysig bod cleifion yn gwybod bod ganddynt hawl i gael gweld eu cofnodion iechyd ac yn ddoeth osgoi unrhyw beth sy'n rhwystro cleifion rhag bod yn rhan weithgar o'u gofal a'u llesiant eu hunain.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr adroddiad at Sally Greenway, Pennaeth Safonau a Llywodraethu Gwybodaeth yn:

Iechyd a Gofal Digidol
4ydd Llawr
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: DHSS-DigitalHealthandCare@Wales.GSI.Gov.UK.

Byddwch cystal ag anfon eich adroddiad at Sally Greenway erbyn 9 Mai 2015.

Yn gywir,

Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /
Prif Weithredwr GIG Cymru